

2020 Rhif LIC20-70

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL (CYMRU)
2006**

Cyfarwyddydau Gwasanaethau
Meddygol Sylfaenol (Cynllun
Imiwneiddio Ychwanegol rhag
Ffliw Tymhorol ar gyfer Ymarfer
Cyffredinol) (Gwasanaeth
Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd)
(Cymru) 2020

Gwnaed 2 Rhagfyr 2020

Yn dod i rym 2 Rhagfyr 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 45 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 45(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u tâl.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio Ychwanegol rhag Ffliw Tymhorol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2020.

(2) O ran y Cyfarwyddydau hyn—

- (a) deuant i rym ar 2 Rhagfyr 2020,
- (b) maent yn cael effaith o 1 Rhagfyr 2020 ymlaen, ac
- (c) deuant i ben ar 1 Mehefin 2021.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw blwyddyn sy'n dod i ben â 31 Mawrth;

ystyr “Bwrdd Iechyd Lleol” (“*Local Health Board*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi ei sefydlu o dan adran 11 o'r Ddeddf (byrddau iechyd lleol);

mae i “claf cofrestredig” yr ystyr a roddir i “registered patient” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(1);

ystyr “claf cymwys” (“*eligible patient*”) yw claf cofrestredig sy'n 50 mlwydd oed o leiaf ond yn iau na 65 mlwydd oed ar 31 Mawrth 2021;

ystyr “clwstwr” (“*cluster*”) yw grŵp o ddarparwyr gwasanaethau lleol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ac sydd wedi cytuno i gydweithredu i gyflenwi gwasanaethau meddygol sylfaenol ar draws ardal ddaearyddol benodedig;

ystyr “contract gwasanaethau meddygol cyffredinol” (“*general medical services contract*”) yw contract ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol rhwng contractwr GMC a Bwrdd Iechyd Lleol a wneir yn unol ag adran 42 o'r Ddeddf;

ystyr “contractwr GMC” (“*GMS contractor*”) yw person y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo neu wedi ymrwymo i contract gwasanaethau meddygol cyffredinol ag ef;

ystyr “contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen” (“*engaged GMS contractor*”) yw contractwr GMC sy'n cytuno â Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â threfniant a wneir yn unol â Chyfarwyddyd 4(1);

ystyr “Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol” (“*Statement of Financial Entitlements*”) yw unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 45 o'r Ddeddf mewn perthynas â thaliadau sydd i'w gwneud gan Fwrdd Iechyd Lleol i contractwr GMC;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “practis arweiniol y clwstwr” (“*cluster lead practice*”) yw contractwr GMC sydd wedi cytuno i

(1) O. S. 2004/478 (Cy. 48).

ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i'w gleifion cymwys, ac i gleifion cymwys contractwr GMC yn ei glwstwr nad yw'n contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, ac y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cytuno y bydd yn bractis arweiniol y clwstwr;

ystyr "proffesiynolyn gofal iechyd" ("*health care professional*") yw person sy'n aelod o broffesiwn a reoleiddir gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(1).

Sefydlu Cynllun Imiwneiddio Ychwanegol rhag Ffliw Tymhorol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol

3.—(1) Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 41 o'r Ddeddf (gwasanaethau meddygol sylfaenol) arfer ei swyddogaethau er mwyn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn ei ardal, neu ddiogelu bod gwasanaethau meddygol sylfaenol yn cael eu darparu yn ei ardal.

(2) Fel rhan o'i waith o gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 41 o'r Ddeddf, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol sefydlu, gweithredu ac, fel y bo'n briodol, ddiwygio Cynllun Imiwneiddio Ychwanegol rhag Ffliw Tymhorol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol.

(3) Diben sylfaenol y Cynllun Imiwneiddio Ychwanegol rhag Ffliw Tymhorol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol yw galluogi darparu brechlynnau ffliw gan contractwyr GMC i bersonau sy'n 50 mlwydd oed o leiaf ond yn iau na 65 mlwydd oed yn ystod blwyddyn ariannol 2020/2021.

Cynllun Imiwneiddio Ychwanegol rhag Ffliw Tymhorol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol

4.—(1) Fel rhan o'i Gynllun Imiwneiddio Ychwanegol rhag Ffliw Tymhorol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol gynnig ymrwymo i drefniadau ag—

- (a) pob contractwr GMC, mewn perthynas â chleifion cymwys y contractwr GMC hwnnw; ac yna
- (b) naill ai—
 - (i) un neu ragor o bractisau arweiniol y clwstwr, mewn perthynas â chleifion cymwys practis arweiniol y clwstwr, a chleifion cymwys y contractwyr GMC hynny, os oes rhai, yn ei glwstwr nad ydynt wedi cytuno, o fewn unrhyw gyfnod amser sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, i gyflenwi'r Gwasanaeth

(1) 2002 p. 17.

Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i'w cleifion cymwys yn unol ag is-baragraff (a), neu

- (ii) contractwr GMC sydd wedi cytuno i gyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â pharagraff (a) mewn perthynas â chleifion cymwys contractwr GMC arall neu grŵp o contractwyr GMC, yn ddarostyngedig i gytundeb y contractwr GMC arall neu grŵp o contractwyr GMC.

(2) Pan na fydd cleifion cymwys contractwr GMC yn cael y gwasanaethau a amlinellir yn y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd, naill ai gan y contractwr GMC y maent yn gleifion cofrestredig mewn perthynas ag ef, neu gan bractis arweiniol clwstwr, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu i gleifion cymwys y contractwr GMC hwnnw mor agos i fangre practis y contractwr GMC hwnnw ag sy'n rhesymol ymarferol, a chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol gyflenwi'r gwasanaethau o dan y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i'r cleifion hynny mewn unrhyw ffordd y mae'n credu ei bod yn briodol (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, drwy ddarparu'r gwasanaethau ei hunan neu drefnu i unrhyw contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen gyflenwi'r gwasanaethau hynny).

(3) Pan fo trefniadau yn cael eu gwneud rhwng practis arweiniol clwstwr a Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â pharagraff (1)(b)(i), rhaid i bob contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen gydweithredu(1) â'r contractwyr GMC eraill sydd wedi eu cymryd ymlaen a phractis arweiniol y clwstwr yn ei glwstwr er mwyn i bractis arweiniol y clwstwr gwblhau, erbyn unrhyw ddyddiad sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, blun sy'n nodi'r trefniant ar gyfer cyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i gleifion cymwys y contractwyr GMC sydd wedi eu cymryd ymlaen ar draws y clwstwr. Pan fo dim ond un contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, sef practis arweiniol y clwstwr, ef fydd yn gyfrifol am gwblhau'r plan hwnnw. Pan na fo unrhyw bractis arweiniol clwstwr, a bod pob un o'r contractwyr GMC yn y clwstwr yn contractwyr GMC sydd wedi eu cymryd ymlaen, hwy i gyd fydd yn gyfrifol am gwblhau'r plan hwnnw.

(4) Pan fo trefniadau yn cael eu gwneud rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a chontractwr GMC yn unol â pharagraff (1), rhaid i'r trefniadau hynny, mewn

(1) Gweler paragraff 12 o Ran 1 o Atodlen 6 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/478 (Cy. 48)).

cysylltiad â blwyddyn ariannol 2020/2021 (neu ran o'r flwyddyn ariannol honno), gynnwys—

- (a) gofyniad bod y contractwr GMC yn datblygu ac yn cynnal cofrestr (ei "Cofrestr Cynllun Imiwneiddio Ychwanegol rhag y Ffliw", a all gynnwys cofnodion sydd wedi eu tagio'n electronig mewn cronfa ddata gyfrifiadurol ehangach) o'r holl gleifion cymwys y mae'r contractwr GMC i gynnig imiwneiddio rhag haint y fflw iddynt;
- (b) gofyniad bod y contractwr GMC yn ymrwymo—
 - (i) i gynnig brechiadau rhag haint y fflw i bob claf cymwys—
 - (aa) i wneud y cynnig hwnnw yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 1 Rhagfyr ac yn dod i ben â 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol honno ac i ganolbwyntio'r rhaglen imiwneiddio yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 1 Rhagfyr ac yn dod i ben â 31 Ionawr yn y flwyddyn ariannol honno,
 - (bb) pan fo'r fflw yn dal i gylchredeg ar 31 Mawrth, i barhau i wneud y cynnig hwnnw yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 1 Ebrill ac yn dod i ben â 31 Mai, ac
 - (cc) i ddarparu'r brechlyn a bennir yn Nolen Iechyd y Cyhoedd CEM/CMO/2020/27(1) neu, pan fo ar gael, frechlyn o stoc bresennol contractwr GMC ac nas cyflenwyd yn ganolog yn unol â Dolen Iechyd y Cyhoedd cyfeirnod CEM/CMO/2020/25(2),
a
 - (ii) i gofnodi'r wybodaeth sydd ganddo yn ei Gofrestr Cynllun Imiwneiddio Ychwanegol rhag y Fflw drwy ddefnyddio codau Read cenedlaethol;
- (c) gofyniad bod y contractwr GMC yn datblygu dull rhagweithiol ac ataliol o gynnig y

-
- (1) Fe'i dyroddwyd ar 25 Tachwedd 2020 ac mae ar gael drwy'r ddolen a ganlyn:
<http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/Contacts.nsf/Main%20Framset?OpenFrameSet&Frame=Right&Src=%2FCcontacts.nsf%2FEmailPublicView%2F50e2471c15cabbb18025862b005a4907%3FOpenDocument%26AutoFramed>
 - (2) Fe'i dyroddwyd ar 25 Tachwedd 2020 ac mae ar gael drwy'r ddolen a ganlyn:
<http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/Contacts.nsf/Main%20Framset?OpenFrameSet&Frame=Right&Src=%2FCcontacts.nsf%2FEmailPublicView%2F50e2471c15cabbb18025862b005a4907%3FOpenDocument%26AutoFramed>

brechiadau hyn drwy fabwysiadu systemau galw ac atgoffa cadarn i gysylltu â chleifion cymwys sydd, neu a fydd, ar ddiwrnod olaf blwyddyn ariannol 2020/21, yn 50 mlwydd oed o leiaf ond yn iau na 65 mlwydd oed, er mwyn—

- (i) sicrhau bod cynifer o'r cleifion hynny â phosibl yn cael y brechiad er budd y cleifion hynny, a
 - (ii) cyflawni unrhyw dargedau o ran iechyd y cyhoedd mewn cysylltiad â'r brechiadau hynny;
- (d) gofyniad bod y contractwr GMC yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cofnodion meddygol gydol oes a ddelir gan ymarferydd cyffredinol claf cymwys yn cael eu cadw'n gyfredol o ran statws imiwneiddio'r claf hwnnw, ac yn benodol eu bod yn cynnwys—
- (i) unrhyw gynnig o frechiad sy'n cael ei wrthod,
 - (ii) pan fo cynnig o frechiad wedi ei dderbyn—
 - (aa) manylion y cydsyniad i'r brechiad neu'r imiwneiddio (pan fo person wedi cydsynio ar ran claf, rhaid i berthynas y person hwnnw â'r claf gael ei chofnodi hefyd),
 - (bb) rhif swp, dyddiad dod i ben a theitl y brechlyn,
 - (cc) y dos a roddir,
 - (dd) dyddiad rhoi'r brechlyn,
 - (ee) pan fo dau frechlyn yn cael eu rhoi, lwybr rhoi pob brechlyn a'r safle lle y rhoddir pob brechlyn,
 - (ff) unrhyw wrtharwyddion i'r brechiad neu'r imiwneiddio,
 - (gg) unrhyw adweithiau niweidiol i'r brechiad neu'r imiwneiddio;
- (e) gofyniad bod y contractwr GMC yn sicrhau bod gan unrhyw broffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymwneud â rhoi brechlyn—
- (i) unrhyw brofiad, sgiliau a hyfforddiant y mae eu hangen⁽¹⁾ o ran rhoi'r brechlyn; a
 - (ii) hyfforddiant o ran cydnabod anaffylacsis a'i drin yn y lle cyntaf;

(1) Gan ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r cwricwlwm craidd ar gyfer Hyfforddiant Imiwneiddio ar http://howis.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=474&pid=42421#National_Minimum_Standards_and_core_curriculum_for_Immunisation_Training.

- (f) gofyniad bod y contractwr GMC yn sicrhau ei fod yn glynu wrth y canllawiau presennol ar “Storage, distribution and disposal of vaccines” yn yr argraffiad diweddaraf o’r “Green Book”(1);
- (g) gofyniad bod y contractwr GMC yn cyflenwi i’w Fwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth y mae’n gofyn yn rhesymol amdani at ddibenion monitro sut y mae’r contractwr GMC yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y plan;
- (h) gofyniad bod y contractwr GMC yn cyflenwi i Iechyd Cyhoeddus Cymru wybodaeth am gleifion cymwys, drwy echdynnu data’n awtomatig, at ddiben monitro faint o gleifion sy’n cael y brechlyn yn lleol ac yn genedlaethol;
- (i) gofyniad bod y contractwr GMC—
 - (i) yn sicrhau bod gan bob proffesiynolyn gofal iechyd sy’n ymgymryd â’r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd y sgiliau, yr hyfforddiant, y cymhwysedd a’r profiad angenrheidiol er mwyn darparu’r gwasanaethau;
 - (ii) yn sicrhau bod pob proffesiynolyn gofal iechyd sy’n ymgymryd â’r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn cwblhau gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol drwy, er enghraifft, diweddarau ei addysg yn rheolaidd, mynd ar gyrsiau perthnasol a ddarperir gan y Byrddau Iechyd Lleol, yn ogystal â dilyn dysgu hunangyfeiriedig, er mwyn gallu dangos bod ganddo’r wybodaeth ddigonol a’r sgiliau digonol drwy ei arfarniad ac ailddilysiad blynyddol;
 - (iii) yn sicrhau bod pob proffesiynolyn gofal iechyd sy’n ymgymryd â’r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn ystyried unrhyw gynnig o gyrsiau diweddarau addysg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol;
 - (iv) yn sicrhau bod pob proffesiynolyn gofal iechyd sy’n ymgymryd â’r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd wedi ei indemnio / ei yswirio’n ddigonol am unrhyw atebolrwydd sy’n codi o’r gwaith sy’n cael ei wneud;

(1) Ystyr “Green Book” yw ‘Immunisation against infectious disease’ ar <http://immunisation.dh.gov.uk/category/the-green-book/>

- (v) yn cyflenwi i'w Fwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn yn rhesymol amdani at ddibenion monitro sut y mae'r contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd, a pherfformiad y clwstwr mewn perthynas â'r plan a bennir ym mharagraff (3) uchod;
- (j) trefniadau talu am gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, y mae rhaid iddynt ddarparu iddo allu hawlio (pa un a yw'n gweithredu ar ei liwt ei hun yn unig neu fel practis arweiniol clwstwr)—
 - (i) taliad o £13.78 fesul brechlyn a roddir yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 1 Rhagfyr 2020 ac yn dod i ben â 31 Mawrth 2021 neu, os bydd is-baragraff (b)(i)(bb) yn gymwys, 31 Mai 2021, pan fo'r contractwr GMC wedi rhoi brechlyn a gyflenwyd yn unol â Dolen Iechyd y Cyhoedd cyfeirnodau CEM/CMO/2020/25 a CEM/CMO/2020/27,
 - (ii) taliad o £11.78 fesul brechlyn a roddir yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 1 Rhagfyr 2020 ac yn dod i ben â 31 Mawrth 2021 neu, os bydd is-baragraff (b)(i)(bb) yn gymwys, 31 Mai 2021, pan fo'r contractwr GMC wedi rhoi brechlyn o stoc a oedd eisoes ar gael i'r contractwr GMC hwnnw ac nas cyflenwyd yn ganolog yn unol â Dolen Iechyd y Cyhoedd cyfeirnod CEM/CMO/2020/25, a
 - (iii) y taliad a bennir ym mharagraff (i) pan fo'r contractwr GMC, ar gais y Bwrdd Iechyd Lleol, wedi rhoi brechlyn i staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal preswyl i oedolion, cartrefi nyrsio a hosbisau i blant neu i berson sy'n darparu gofal cartref,


ac ar ôl i'r taliadau fod yn ddyledus, fel uchod, a chael eu hawdurdodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol, bydd y taliadau hynny yn cael eu talu wedyn ar y dyddiad y mae taliad misol Swm Craidd y contractwr GMC yn dod yn ddyledus nesaf yn unol â'r Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol.

(5) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol, pan fo'n angenrheidiol, amrywio contract gwasanaethau meddygol cyffredinol y contractwr GMC fel bod y trefniadau a wneir yn unol â pharagraff (1) yn rhan o

contract y contractwr GMC a bod gofynion y trefniadau yn amodau o'r contract.

(6) Ymdrinnir ag unrhyw anghydfodau sy'n codi o ganlyniad i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â Rhan 7 o Atodlen 6 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(1).

(7) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â threfniant yn unol â pharagraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod paragraffau (4) a (5) yn gymwys i unrhyw drefniadau fel y byddent i contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen.



A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alex Slade', is enclosed within a rectangular box. The signature is written in a cursive, fluid style.

**Llofnodwyd gan Alex Slade, Dirprwy
Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol o dan
awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru**

Dyddiedig: 2 Rhagfyr 2020

(1) O.S. 2004/478 (Cy. 48).